# PWYLLGOR PENSIYNAU, 29.03.10

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd John Gwilym Jones (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Keith Greenly-Jones (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:-** Trevor Edwards, John R.Jones, John W. Jones

**Aelod Cyfetholedig:-**Y Cynghorydd Goronwy O. Parry (Cyngor Sir Ynys Môn).

**Swyddogion:-** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Gareth Jones (Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr W. Tudor Owen, Gwilym Euros Roberts a'r Cynghorydd Margaret Lyon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Marina Parry Owen (Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau)

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar16 Rhagfyr 2009 a 11/29 Ionawr 2010 fel rhai cywir.

**3. SGRINIO MARWOLAETHAU PENSIYNWYR A GWASANAETH OLRHAIN CYFEIRIADAU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid ar sgrinio marwolaethau pensiynwyr a gwasanaeth olrhain cyfeiriadau.

Adroddodd y Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau bod Uned Bensiynau Gwynedd yn talu tros 7,000 o bensiynwyr yn fisol. Mae'n ddibynnol ar y Fenter Twyll Cenedlaethol, teulu a ffrindiau'r aelod ymadawedig a chyfrifon banc wedi cau i hysbysu'r gwasanaeth am farwolaethau pensiynwyr. Nid yw'r holl farwolaethau'n cael eu hysbysu'n syth ac mae'n bosibl i wythnosau a misoedd fynd heibio mewn rhai achosion. Mae hysbysiadau hwyr yn creu gordaliadau ac mae adennill yr arian yn cymryd llawer o amser, ac mewn achosion lle mae'r farwolaeth wedi digwydd mewn blwyddyn dreth flaenorol, mae angen ailedrych ac addasu gohebiaeth gyda TCEM.

Nododd bod y Cyngor yn gweithredu polisi lle yr anfonir slipiau tâl pensiwn dim ond pan fyddai gwahaniaeth yn y taliad pensiwn net o 50 ceiniog o'i gymharu â thaliad pensiwn y mis blaenorol ac mae hyn yn arbed oddeutu £15,000 y flwyddyn mewn cludiant. Fel canlyniad i hyn, nid yw'n amlwg yn syth i berthnasau bod yr ymadawedig yn derbyn pensiwn. Gweithredir y Fenter Twyll Cenedlaethol (MTC) bob dwy flynedd ac fe allai adnabod marwolaethau sydd heb eu hysbysu. Fodd bynnag, gallai'r rhain fod hyd at ddwy flynedd yn hwyr a gallent gynnwys hysbysiadau gwallus sydd gyda chanlyniadau a allai greu embaras. Ar 28 Chwefror 2010 'roedd 6,286 o aelodau'n bensiynwyr gohiriedig yn y

gronfa. O'r rhain, fe adnabuwyd 671 fel aelodau sydd wedi newid eu cyfeiriad ond heb roddi gwybodaeth i'r uned bensiynau. Fe allai rhai eraill anhysbys fodoli hefyd.

Yn flynyddol mae nifer uchel o Ddatganiadau Buddion Gohiriedig Blynyddol (DBB) yn cael eu hanfon yn ôl wedi eu marcio "wedi symud". Mae hyn y creu problemau gan ei fod yn ofynnol dan reoliadau i aelodau dderbyn DBB, ond yn fwy problemus pan nad yw'n bosibl olrhain yr aelod ar yr amser mae buddion yn daladwy. Efallai bod achosion lle mae aelodau gohiriedig wedi marw heb i'r teulu sylweddoli bod buddion yn daladwy o'r cynllun.

Nododd mai rhan o gynllun gwella'r Uned Bensiynau am 2009/10 oedd archwilio i mewn i'r posibilrwydd o gyflwyno gwasanaeth sgrinio marwolaeth ac olrhain cyfeiriadau. Mewn termau pris a hwylustod o weinyddiaeth, Atmos Data Services Cyf sy'n cynnig yr opsiwn mwyaf deniadol gan gynnwys gwiriad dadansoddol am ddim ar y data a storiwyd gan y gronfa. Ar draws y gronfa, darganfuwyd yn y gwiriad 33 o achosion potensial o farwolaeth. Fodd bynnag, fe allai rhai neu'r cyfan o'r achosion hyn fod yn achosion a hysbyswyd eisoes ond heb eu prosesu hyd yn hyn. 'Roedd 761 o gyfeiriadau blaen yrru wedi eu rhestru a 2,117 heb eu cadarnhau (serch hynny, fe allai rhai o'r rhain ddeillio o faterion dwyieithog). Nodwyd 8,486 o gyfeiriadau a allai gael eu gwella i gyfarfod â safonau'r Post Brenhinol.

Mewn perthynas â'r glanhau data cychwynnol, hysbysodd y swyddog mai man cychwyn yn unig yw'r broses cyntaf ond gellir ei gario allan ar unrhyw adeg yr ystyrid yn ddoeth i'w wneud. Fel man cychwyn i'r fenter newydd, mae'n fuddiol i sefydlu'r fath wiriad ac i benderfynu ar ba ysbaid y dylid glanhau'r data yn y dyfodol.

| | |
|---|---|
| Prosesu Ffeil Glanhau Cod Post a Chyfeiriad | |
| Darparu cywiriadau/gwellhad ar gyfer 14,219 recordiau @ £0.16 y record | £2,275.04 |
| Olrhain Cyfeiriad | |
| Darparu 761 cyfeiriad wedi ei flaenyrru @ £2.00 y cyfeiriad wedi ei flaenyrru | £1,522.00 |
| Adnabod 317 "wedi symud" @ £0.60 y record sydd wedi ei darganfod | £ 190.20 |
| Sgrinio Marwolaeth | |
| Adnabod 33 marwolaethau potensial @ £5.00 y record | £ 165.00 |
| Cyfanswm | £,4,152.24 |

Nododd y swyddog bod sgrinio marwolaethau rheolaidd, sef yr ail broses, yn llawer mwy actif a olygai sgrinio 7,098 o bensiynwyr a dibynyddion yn fisol am gost o £2,000 y flwyddyn. Mae'r gost yn seiliedig ar 20c y record yn flynyddol yn amodol ar isafswm o £2,000 y flwyddyn ac yn cynnwys darpariaeth ar gyfer unrhyw hysbysiadau "wedi symud" a blaenyrru cyfeiriadau ar sail misol a glanhad "PAF" blynyddol ar bob record.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo -**
**i) Penodiad Atmos Data Services fel darparwr Gwasanaeth Glanhau Data a Sgrinio Marwolaethau i Gronfa Bensiwn Gwynedd.**
**ii) Cyllideb flynyddol o £2,000 ar gyfer y Gwasanaeth Sgrinio Marwolaeth.**
**iii) Cyllideb unwaith ac am byth o £4,152 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010/11 ar gyfer glanhau data ac olrhain cyfeiriadau.**

**4. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2010/11**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid y daeth y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 i rym ar 1 Ionawr 2010. 'Roedd y rheoliadau newydd hyn yn –

a) Ymddangos fel pe bai'n nodi nad oes hawl i gronni arian y gronfa bensiwn gyda balansau'r awdurdod gweinyddol o 1 Ebrill 2010.
b) Rhoddi hawl penodol i'r awdurdod gweinyddol fenthyca arian am hyd at 90 diwrnod at ddibenion llif arian y gronfa bensiwn.
c) Ei gwneud yn orfodol ar y gronfa bensiwn i gael cyfrif banc ar wahân o 1 Ebrill 2011.

Fodd bynnag, ar 4 Mawrth 2010, cyhoeddodd yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol (CLlL) arweiniad interim anffurfiol ar gronni balansau. 'Roedd yn gwrth-ddweud dehongliad rhai o'r rheoliadau uchod, gan ei fod i'w weld yn awgrymu y byddem yn cael parhau i gronni arian y gronfa bensiwn gyda balansau ariannol y Cyngor.

Nododd y swyddog, oherwydd ansicrwydd ynglyn â sut i ddehongli'r canllawiau, gofynnwyd i Hymans Robertson, ymgynghorwyr y Gronfa Bensiwn, am gyngor ynglyn â'r rheoliadau a'r arweiniad uchod. 'Roeddynt o'r farn bod arweiniad CLlL yn ymddangos i fynd yn groes i'r rheoliadau, oedd yn arwynebol ac yn ymddangos fel pe byddai'n gwahardd unrhyw groniad o arian y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Eu cyngor oedd y byddai'r Cyngor yn cael parhau i gronni'r arian os y gellir bodloni'r pedwar maen prawf isod –
i) Bod y Pwyllgor Pensiynau yn gwneud cais i asedau ariannol y gronfa bensiwn gael eu cronni gydag asedau'r Cyngor.
ii) Bod y cronni ar gyfer dibenion rheolaeth trysorlys arian y gronfa bensiwn yn unig ac na ddylai'r gronfa bensiwn fenthyca arian i'r Cyngor e.e. trwy ddefnyddio arian y gronfa bensiwn i ddiwallu tros dro, sefyllfa gorddrafft ariannol y Cyngor.
iii) Bod gan arian y gronfa bensiwn ac arian y Cyngor yr un hawliau economaidd h.y. eu bod yn cael yr un elw buddsoddi gan gynnwys rhannu unrhyw ddiffyg neu golled mewn cyfalaf ac asedau ariannol y Cyngor tros yr un cyfnod buddsoddi.
iv) Bod yn rhaid cael fframwaith ffurfiol ar sut i weithredu a'i rannu gydag archwilwyr y gronfa bensiwn fel eu bod yn gallu gwirio'r gwaith a cydymffurfio gyda'r gofynion rheoleiddiol.

Yn hanesyddol, cydymffurfiodd y Cyngor â (ii) a (iii) uchod. Yn ogystal, mae manylion sut mae'r Cyngor yn cyfrifo'r llog taladwy, i'r gronfa bensiwn ar eu balansau ariannol yn ystod y flwyddyn, yn cael ei ddarparu i'r archwilwyr pan yn gwneud eu harchwiliad blynyddol. Fodd bynnag, o 1 Ebrill 2010, bydd yn ofynnol i'r archwilwyr wirio'r cydymffurfiad gyda'r gofynion rheoleiddiol. O ganlyniad i hyn, ac yn unol â Chyfarwyddyd Statudol y Cynulliad ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyrir y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd, fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DRhST) Cyngor Gwynedd am 2010/11, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn. Cymeradwywyd DRhST Cyngor Gwynedd am 2010/11 gan y Cyngor ar 25 Chwefror 2010.

Mewn perthynas â chanllawiau CIPFA, nododd y swyddog y byddai'r gronfa'n rhoddi ystyriaeth i adolygiad 2009 o "CIPFA Treasury Management in Public Services Code of Practice and Cross Sectoral Guidance Notes".

Mae mewnlif net o arian i'r gronfa gan yr aelodau, felly mewn unrhyw fis mae'r incwm o gyfraniadau a throsglwyddiadau mewnol yn sylweddol uwch na'r hyn a delir allan mewn pensiynau, trosglwyddiadau allanol a chostau. Pan fydd lefel yr arian tros ben yn sylweddol, trosglwyddir arian i un neu fwy o reolwyr buddsoddi'r gronfa. Fel rheol, cedwir oddeutu £5m ar gyfer dibenion llif arian, megis talu pensiynau ac i ariannu'r galw am arian gan y cronfeydd ecwiti preifat. Yn y gorffennol fodd bynnag, oherwydd ymrwymiadau gwybyddus, ar rai adegau mae'r arian a delir yng nghyfrifon banc y gronfa gyda'r Cyngor wedi bod tros £20m. Ar hyn o bryd mae holl arian tros ben y gronfa'n cael ei gronni gyda

balansau ariannol y Cyngor ac yn cael ei fuddsoddi gyda gwrthbartion yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae'r Cyngor yn talu llog i'r gronfa bensiwn ar sail balansau dyddiol y gronfa tros y flwyddyn. Gallai hyn gario ymlaen os bydd y Pwyllgor Pensiynau'n dymuno i arian tros ben y gronfa bensiwn gael ei gronni gyda balansau ariannol y Cyngor. Mae'n amlwg bod cronni'n caniatau manteision maint, ac o ganlyniad yn denu llog uwch, gostwng costau banc ac yn osgoi dyblygu gwaith o fewn y Cyngor.

Nododd y swyddog mai dim ond gyda'r wyth sefydliad sy'n rhan o'r Cynllun Gwarantu Credyd mae'r Cyngor yn buddsoddi ar hyn o bryd. Gan bod cyflyrau yn y sector ariannol wedi dechrau dangos arwyddion o wella er mwyn cael amrywiad yn y rhestr o wrthbartion, mae 19 o fanciau tramor wedi eu hychwanegu i'r rhestr. Cymeradwywyd yr ychwanegiadau hyn gan y Cyngor ar 25 Chwefror 2010 a bydd y rhestr newydd yn weithredol o 1 Ebrill 2010 ymlaen. Ni fyddai'r strategaeth arfaethedig yn ymdrin â'r arian a ddelir gan reolwyr buddsoddi'r gronfa ar gyfer setliadau.

**PENDERFYNWYD**
**a) Cymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol am 2010/11 fel y'i addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn (Atodiad A o'r adroddiad) a'r rhestr o wrthbartion (Atodiad C o'r adroddiad).**
**b) Gwneud cais i'r Cyngor ganiatau i arian tros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2010 ymlaen.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10.30am